## Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned

## 6ed o Chwefror, 2012

**Presennol:** Catrin Roberts (Cadeirydd), Huw Roberts, Huw Antur, Hywel Evans, Iorwerth Evans, Beryl Hughes Griffiths, Rhodri Jones

Alan Evans (Cyngor Sir), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**1042** Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb

**1043** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Bryn Edwards, Karl Jones, Arwel Lloyd Jones, Caradog Evans

**1044** Datganwyd buddiant gan y Clerc ym mater costau, a gan Beryl Hughes Griffiths mewn mater cynllunio Hendre Mawr.

**1045** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Ionawr 3ydd 2012

**1046 Materion yn codi o gyfarfod mis Ionawr:**

1006.2 Mae'r cyflenwad pridd / gro wedi cyrraedd i'r fynwent at ddefnydd teuluoedd i sadio cerrig sy'n ysgwyd.

1006.3 Mae'r arwydd "Dim gwersylla dros nos" wedi ei osod yn Nyrs y fynwent, ond nid oes anfoneb wedi dod i law hyd yn hyn.

1017.7 Nyrs y fynwent - Nid oedd ymholiadau yn y Llyfrgell Genedlaethol am berchnogaeth wedi dwyn ffrwyth. Holwyd a oedd rhai o bapurau'r hen Gyngor Plwyf neu'r Cyngor Cymdeithas yn dal ym meddiant teuluoedd cyn-glercod. Os ydynt, byddai'r Cyngor yn hynod falch o'u cael i'w gosod yn Archifdy Dolgellau. Cytunwyd i ofyn i Mr Dylan Edwards geisio cofrestru Tir Nyrs y Fynwent . **Gweithredu: Clerc**

1031.1 Ffenest arosfan bws Tŷ'n Ddôl – mae Mr Karl Jones wedi tynnu'r gwydr peryglus a bydd yn gwneud y gwaith trwsio maes o law. **Gweithredu: Mr Karl Jones**

1031.3 Coed wrth faes parcio'r Felin – derbyniwyd ymateb o'r Parc Cenedlaethol bod hyn yn rhan o'r rhaglen waith.

1031.4 Pwmp y Llan - rhoddodd Mr Gwilym Jones wybodaeth am yr hyn a oedd wedi digwydd gan CADW yn 1987. Nid oedd yn eglur pwy oedd yn berchen y Pwmp. Cytunwyd i ofyn i gontractwr Partneriaeth Penllyn roi amcangyfrif am y gwaith sydd angen i'w wneud (tacluso'r gwaith cerrig a phaentio). **Gweithredu: Clerc**

1031.5 Hysbysfwrdd y Llan- roedd Mr Arwel Lloyd Jones wedi derbyn un pris. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion, cytunwyd i ofyn am 2 bris arall. **Gweithredu: Mr Arwel Lloyd Jones**

1032.2 Adfer ffordd Dolfach - derbyniwyd ymateb Dŵr Cymru yn cydnabod yr angen i drwsio'r ffordd ar ôl gorffen y gwaith wrth yr orsaf carthion.

1041.2 Trwsio'r wal o dan Blas Deon - derbyniwyd ymateb Asiantaeth yr Amgylchfyd yn dweud nad oedd arian ar gael i wneud y gwaith llynedd ond ei fod ar y rhaglen eleni.

1036 Hynt cynlluniau'r toiledau – cytunwyd i ofyn i Mr Karl Jones am y sefyllfa ddiweddaraf; cytunwyd y gellid gofyn i grefftwr lleol wneud bocs hel arian pan fo angen. Clywyd y bu peth difrod i ffenest a drws y toiledau yn ddiweddar a diolcha'r Cyngor i Mr Aled Richards am atgyweirio'r difrod.
**Gweithredu: Mr Karl Jones**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi bod yn rhoi cymorth gyda'r uchod.

**1047 Y Noson Goffi** Cadarnhawyd trefniadau'r Noson Goffi yng nghwmni Mr David Meredith ar nos Fercher 14 o fis Mawrth am 7.00 a diolchwyd i Mr Arwel Lloyd Jones am wneud y trefniadau. Bydd angen argraffu tocynnau (£5 gyda phlant yn talu £1 ar y noson). **Gweithredu: Clerc**

**1048 Torri gwair y Fynwent** Cytunwyd i anfon hysbyseb i'r Cyfnod yn gofyn am dendrau torri gwair a chynnal a chadw'r fynwent newydd a mynwent yr Eglwys Cytunwyd ar 5/3/12 fel y dyddiad cau. **Gweithredu: Clerc**

**1049 Scottish Power Renewables** Derbyniwyd adroddiad am gyfarfod yr Is gadeirydd a'r Clerc gyda SPR. Roedd diddordeb mewn elw i'r gymuned, efallai mewn prosiect ynni dŵr, neu brosiect i hybu pobl ifanc i aros yn eu cynefin. Cytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

**1051 Gohebiaeth:**

**1.Gwynedd:**

**1)** Derbyniwyd llyfryn Agor y Gist

2) Derbyniwyd Rhaglen Waith – bydd gwaith yn cael ei wneud rhwng Lloches Don a Thŷ Mawr

**2.Parc Cenedlaethol Eryri:**

1) Cefnogwyd cais cynllunio Drws y Nant NP5/ 71/ 434

2) Cefnogwyd cais NP5/71/13J am estyniad i'r safle carafanau ar y sail mai adleoli carafanau a gwella adnoddau'r safle yw'r cais, ac nid ychwanegu at nifer y carafanau.

3) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i
- Maes Parcio'r Hen Gapel
- Tyrbin gwynt Garth Isaf
- Estyniad Tŷ Du

**3.Un Llais Cymru:**

**1)** Roedd y Clerc wedi datgan siom am ddiffyg hyfforddiant yn Gymraeg gan Un Llais Cymru - dim ond 2 gwrs Cymraeg (ail adrodd rhai blaenorol), tra bo 43 yn Saesneg. Derbyniwyd gwybodaeth am apwyntiad Cerys Thomas yn ddiweddar fel Swyddog Datblygu a Hyfforddiant y Gogledd. Derbyniwyd gwybodaeth am ddileu un o'r cyrsiau a oedd wedi eu cynnig ar y rhaglen.

2) Derbyniwyd ymgynghoriad am orsafoedd yr Heddlu; roedd hwn wedi ei anfon at Un Llais Cymru ar ddechrau Rhagfyr ond ni ddaeth i law tan ar ôl cyfarfod Ionawr ac erbyn hyn mae'r dyddiad ymateb wedi mynd heibio.

**4. Arall:**

1) Derbyniwyd dogfen am ymgynghoriad ar gyfrannu organau ond cyrhaeddodd hwn yn rhy hwyr i'w ystyried.

2) Derbyniwyd Ymgynghoriad ar etholiad nesaf i'r Cygnor Sir a chytunwyd gyda'r bwriad i gynnal yr etholiadau ym mis Mai 2017. **Gweithredu: Clerc**

3) Nodwyd y gwahoddiad i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines.

4) Derbyniwyd gwybodaeth am Arian cymwys - £6.80 yr etholwr.

5) Ystyriwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i gais cynllunio o'r gorffennol. Cytunwyd i anfon copi o benderfyniadau'r gorffennol.

**1052 Materion ariannol:**

1) Derbyniwyd derbyneb Hacker Young

2) Derbyniwyd rhent yr hers am hanner blwyddyn

3) Cytunwyd i dalu costau'r Clerc

**1053 Partneriaeth Penllyn**: Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynrychiolwyr yn amlinellu'r holiadur cymunedol ar sut i wario'r grant, trafodaeth gyda Menter Môn am ddyfodol Cywain, cyd-gyfarfod gyda Chyngor Tref y Bala am Awel y Coleg

**1054 Trafodaeth ar Awel y Coleg -** amlinellodd y Cynghorydd Sir yr hyn a glywyd yn y cyfarfod diweddar gyda Chyngor Tref Y Bala. Mynegodd bodlonrwydd pawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw a dywedodd bod yr ymateb lleol i'r cynllun erbyn hyn yn gyffredinol gadarnhaol.

**1055 UFA**

1) **Mynwent yr Eglwys –** Roedd Beryl Hughes Griffiths wedi dod o hyd i ddogfen yn y Llyfrgell Genedlaethol am drosglwyddo mynwent yr Eglwys i Gyngor Plwyf Llanuwchllyn ar 22 Ionawr 1926. Cytunwyd i ofyn Un Llais Cymru ddehongli goblygiadau'r ddogfen i'r Cyngor Cymuned presennol o ran gofal a diogelwch. **Gweithredu: Clerc**
2) **Ysbyty Bronglais -** Cytunwyd i ysgrifennu at Ymddiriedolaeth Hywel Dda i fynegi pryder am israddio Ysbyty Bronglais, ac yn arbennig am y bwriad i ddiddymu'r Uned Gofal Brys. **Gweithredu: Clerc**

Cadarnhau dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

*Lis Puw*